



Pecyn Gwybodaeth Project EQuip

Anabledd Cymru



Cyflwyniad

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am Anabledd Cymru a'n project Equip, a gyllidir gan Grant Gwirfoddoli Cymru.

Mae'n crynhoi nodweddion ein corff, amcanion project EQuip a rolau cyrff pobl anabl.

Yn ogystal, mae'n cynnwys manylion project EQuip, megis hyd y lleoliadau, y math o waith a fwriedir a'r broses o gymryd rhan.

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cynnwys	1
Am Anabledd Cymru	3
Ein Cyrhaeddiad (Gorffennaf 2021)	3
Project EQuip	4
Amcanion	4
Gwlad gyda diwylliant bywiog ble bydd y Gymraeg yn ffynnu	4
Cymru Lewyrchus	4
Cymru Fwy Cyfartal	5
Manylion Lleoliadau	6
Manylion Cyffredinol	6
Hyd	6
Lleoliad	6
Oedran myfyrwyr	6
Model Anabledd Cymdeithasol	6

Graddedigion diweddar.....	6
GO Cymru	6
Darpar leoliadau	6
Hyfforddi myfyrwyr yn ystod lleoliadau	7
Aelodaeth Anabledd Cymru	7
Cysylltu cyrff pobl anabl a myfyrwyr	8
Cyrff Pobl Anabl (DPOs)	8
Myfyrwyr.....	8
Cysylltu!	9

Am Anabledd Cymru

Cymdeithas genedlaethol cyrff pobl anabl¹ yn brwydro dros hawliau, cydraddoldeb a byw'n annibynnol ar ran pobl anabl Cymru.

Mae Anabledd Cymru yn hyrwyddo mabwysiadu a gweithredu'r Model Anabledd Cymdeithasol, sy'n mynnu mai rhwystrau amgylcheddol, trefniadol ac agweddol sy'n anablu pobl ac yn eu hatal rhag bod yn aelodau llawn o gymdeithas, nid eu cyflyrau meddygol neu amhariadau.

Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd, ymgynghoriadau, ymchwil a datblygu polisiau ar ran yr aelodau er dylanwadu ar bolisiau ac arferion y llywodraeth sy'n gysylltiedig â phobl anabl. Byddwn yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth ar gyfer aelodau ar draws y wlad drwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghyd â chynadledau, seminarau a digwyddiadau.

Ein Cyrraedd (Gorffennaf 2021)

Anabledd Cymru yn gorff ymbarél sy'n cynnwys:

- Oddeutu **100** grŵp aelodau cenedlaethol a lleol
 - Grŵp craidd o **29** corff pobl anabl lleol ar draws y wlad
- Estyn ein cyrraedd ymhellach drwy:**
- Dros 350 aelod unigol
 - 4,739 ar Facebook
 - 14,100 dilynnydd twitter

¹ Cyrff a arweinir gan ac ar ran pobl anabl, gydag o leiaf 51% o'r aelodau/bwrdd/ymddiriedolwyr yn disgrifio eu hunain fel pobl anabl.

Project EQuip

Mae Anabledd Cymru wedi derbyn £19,720.80 drwy grant Gwirfoddoli Cymru, a drefnir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Bydd yn cyllido project newydd EQuip fydd yn rhedeg tan 31 Mawrth 2022.

Wrth adeiladu ar ein profiad o osod myfyrwyr gyda chyrrff pobl anabl, byddwn yn trefnu profiad gwaith ar gyfer myfyrwyr anabl gydag amryw gyrrff pobl anabl ar draws y wlad.

Amcanion

Ein nod yw gweithio tuag at 3 o amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gwlad gyda diwylliant bywiog ble bydd y Gymraeg yn ffynnu

Mae llawer o gyrrff pobl anabl yng Nghymru yn ymgyrchu er gwella mynediad i safleoedd treftadaeth, yr amgylchedd naturiol a chymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chreadigol. Drwy'r project hwn, bydd myfyrwyr yn helpu i ddatblygu gwaith cyrrff pobl anabl. Yn ogystal, rydym am gael myfyrwyr Cymraeg yn rhan o'r lleoliadau gwaith, gan helpu cyrrff pobl anabl i ddatblygu negeseuon dwyieithog syml fydd yn parhau tu hwnt i leoliadau'r myfyrwyr. Bydd hynny'n helpu i weithio tuag at wlad gyda diwylliant bywiog ble bydd y Gymraeg yn ffynnu.

Cymru Lewyrchus

Bydd angen ystyried dau bwynt allweddol wrth edrych i greu Cymru lewyrchus. Yn gyntaf, mae cyrrff pobl anabl yn brwydro i wella cynhwysedd oherwydd gostyngiad yn nifer y gwirfoddolwyr, ynghyd â diffyg cyllid cynaladwy hir dymor. Sylwodd Anabledd Cymru ostyngiad sylweddol mewn aelodaeth cyrrff pobl anabl yn ystod yr un cyfnod pum mlynedd wrth i lefelau tlodi pobl anabl gynyddu yn 2013. Mae ymateb gan aelodau Anabledd Cymru yn awgrymu bod gwirfoddoli gyda chyrrff pobl anabl wedi gostwng oherwydd mae darpar wirfoddolwyr wedi gorfod canolbwyntio ar gael incwm digonol i fyw.

Yn ail, ar hyn o bryd mae pobl anabl² yn wynebu bwlch cyflogaeth o 31%. Drwy'r project hwn, bydd myfyrwyr anabl yn cael profiad gwaith gwerthfawr fydd yn rhoi cyfleoedd gwell iddynt gael gwaith. Yn ei dro, bydd hynny'n helpu i ostwng y bylchau cyflogaeth a thlodi o fewn y gymuned anabl.

Cymru Fwy Cyfartal

Er mwyn gweithio tuag at wlad fwy cyfartal, bydd angen deall y rhesymau am greu'r bwlch cyflogaeth. Yn 2008, darparodd arolwg o'r farchnad lafur rai syniadau am hynny³. Roedd sawl ffactor yn dylanwadu ar y bwlch cyflogaeth, sef:

- Cyflogwyr o'r farn fod pobl anabl yn llai cynhyrchiol na phobl nid-anabl
- Anffafiaeth gan gyflogwyr
- Cyflyrau iechyd neu amhariadau pobl anabl yn eu rhwystro'n ymarferol rhag gwneud rhai swyddi
- Cyflogau isel nid yn ddigon i gymryd lle budd-daliadau rhai pobl anabl

Daeth papur ymchwil arall i'r casgliad nad yw cyfraddau cyflogaeth isel pobl gydag anableddau yn deillio o amharodrwydd i weithio⁴. Wrth ddefnyddio enghreifftiau o'r project hwn, gallwn herio syniadau negyddol am weithwyr anabl, fydd yn helpu i greu Cymru fwy cyfartal.

² Business_Wales. (n.d.). *Disabled People's Employment*. Retrieved 07 01, 2021, from <https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/disabled-peoples-employment>

³ Jones, M. (2008). Disability and the Labour Market: A review of the empirical evidence. *Journal of Economic Studies*, 10-13. Retrieved from https://www.researchgate.net/profile/Melanie-Jones-13/publication/23528725_Disability_and_the_Labour_Market_A_Review_of_the_Empirical_Evidence/links/02e7e51cc076654309000000/Disability-and-the-Labour-Market-A-Review-of-the-Empirical-Evidence.pdf

⁴ Ali, M., Schur, L., & Blanck, P. (2011). What types of jobs do people with disabilities want? *Occup Rehabil*, 199-210. Retrieved from <http://citeseerx.ist.psu.edu/viewdoc/download?doi=10.1.1.731.6584&rep=rep1&type=pdf>

Manylion Lleoliadau

Manylion Cyffredinol

Hyd

Rhagwelir trefnu 8 diwrnod gwaith o 6 awr yr un. Gellir addasu hyn mewn ymateb i anghenion myfyrwyr a chyrrff.

Lleoliad

Trefnir pob lleoliad fel rhai rhithwir; er gwella'r ddarpariaeth ac osgoi problemau os bydd cyfyngiadau covid-19 yn newid yn ystod y flwyddyn.

Oedran myfyrwyr

Trefnir y lleoliadau ar gyfer myfyrwyr anabl rhwng 18 a 25 oed.

Model Anabledd Cymdeithasol

Ni fydd angen tystiolaeth o ddiagnosis er profi bydd myfyrwyr yn gymwys i wneud cais. Yn hytrach, byddwn yn gofyn pa rwystrau byddwch yn wynebu fel person anabl.

Graddedigion diweddar

Byddwn yn derbyn myfyrwyr fydd wedi gorffen eu blwyddyn olaf tan ddechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf. Cofiwch bydd y project ond yn para tan ddiwedd Mawrth 2022.

GO Cymru

Bydd Anabledd Cymru yn cydweithredu â thimau GO Cymru mewn prifysgolion er darparu amrediad ehangach o opsiynau ar gyfer eu myfyrwyr.

Darpar leoliadau

Ni chyfyngir y lleoliadau gan y graddau bydd myfyrwyr yn astudio, y syniad yw darparu'r profiadau gorau posibl ar gyfer myfyrwyr.

Yn dilyn ymchwil a grŵp ffocws ar y math o waith bydd cyrff pobl anabl am gynnig, awgrymwyd yr opsiynau dilynol:

- Cymorth i ddatblygu gwefannau ee creu tudalennau gwybodaeth
- Help i greu fideos yn hyrwyddo gwaith cyrff pobl anabl
- Help i greu safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys Facebook, Twitter, YouTube etc
- Gwirfoddolwyr gwasanaethau ymgyfeillio
- Cymorth cynllunio a chynnal digwyddiadau ee sefydlu tudalen Eventbrite, cyfathrebu gyda chynrychiolwyr, llunio ffurflenni monitro a gwerthuso.

Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ond yn syniadau wrth i ni weithio ochr yn ochr â chyrff pobl anabl er creu lleoliadau penodol fydd yn addas i'r ddau barti.

Hyfforddi myfyrwyr yn ystod lleoliadau

Yn ystod lleoliad, bydd Anabledd Cymru hefyd yn darparu hyfforddiant ac adnoddau sylfaenol ar gyfer myfyrwyr ar y Model Anabledd Cymdeithasol, ynghyd â deddfau cyfredol Cymru y gellir defnyddio er mynnu eich hawliau fel person anabl.

Trefnir yr hyfforddiant gan y swyddog project, gan ddefnyddio'r adnoddau diweddaraf megis pecyn Deall Eich Hawliau.

Aelodaeth Anabledd Cymru

Ni fydd myfyrwyr na chyrff pobl anabl yn gorfod bod yn aelodau o Anabledd Cymru er mwyn bod yn rhan o broject EQuip. Ond, fel corff pobl anabl ac nid yn aelod bydd rhaid cael cyfansoddiad yn nodi bod 51% o'r aelodau a'r pwyllgor rheoli yn diffinio eu hunain fel pobl anabl (rheol 51%).

Byddwn yn cymell myfyrwyr a chyrff pobl anabl i ddod yn aelodau os na dynt eisoes.

Cysylltu cyrff pobl anabl a myfyrwyr

Ar hyn o bryd mae Anabledd Cymru ar fin hysbysu prifysgolion a chyrff pobl anabl o fanylion project EQuip. Ar ôl gwneud hynny bydd yn dechrau'r broses o gysylltu'r ddau grŵp.

Byddwn yn gofyn y cyrff a'r myfyrwyr i arwyddo ffurflen gyfryngau er mwyn ein galluogi i hyrwyddo'r project a chreu enghreifftiau pwysig ar gyfer yr hir dymor. Bydd yn rhan o'n gwaith i daclo anffafiaeth a chamsyniadau am weithwyr anabl. Budd dull cyflwyno'r enghreifftiau ee ysgrifenedig, fideo etc yn dibynnu ar beth fydd yn iawn i chi.

Cyrff Pobl Anabl (DPOs)

- Cysylltu â'r swyddog project
- Sgwrs anffurfiol yn trafod eich corff a'ch cynlluniau
- Datblygu cynllun lleoliadau
- Ychwanegu disgrifiad cyffredinol o'ch corff a'r lleoliad i'r gronfa ddata arlein ar gyfer prifysgolion a myfyrwyr
- Yna bydd y swyddog project yn cysylltu â chi pan fynegir diddordeb yn eich darpar leoliadau
- Cynnal sgwrs anffurfiol gyda chi, y myfyriwr a'r swyddog project er mwyn sicrhau bydd popeth yn iawn i chi - os byddwch yn dilyn rhaglen GO Cymru, byddwn hefyd yn gwahodd eich gweithiwr achos
- Dechrau'r lleoliad

Myfyrwyr

- Manylion pellach am gyfleoedd drwy GO Cymru, y tîm gyrfaedd neu ffynonellau eraill
- Trafod eich gofynion gyda'r swyddog project - os yn dilyn rhaglen GO Cymru, byddwn hefyd yn gwahodd eich gweithiwr achos
- Swyddog project yn darparu disgrifiadau cyrff pobl anabl a darpar leoliadau er cael hyd i gyfleoedd addas
- Trafodaeth anffurfiol gyda'r corff anabl a swyddog project EQuip er sicrhau bydd y lleoliad yn addas a gwirio manylion y lleoliad - os yn dilyn rhaglen GO Cymru, byddwn hefyd yn gwahodd eich gweithiwr achos

- Ar yr un pryd bydd y swyddog project yn crynhoi data am y myfyriwr, megis lefelau hyder. Gwneir hynny er mwyn gostwng nifer y ffurflenni bydd angen llenwi a symleiddio'r broses.

Cysylltu!

Cofiwch gysylltu os ydych yn fyfyrwr, aelod staff prifysgol neu gorff pobl anabl ac am wybod mwy!

Swyddog Project EQuip yw Leandra Craine, ebost leandra.craine@disabilitywales.org

Neu, galwch ein swyddfa a gofyn y swyddog project i'ch galw.
Ffôn **029 2088 7325**

Cofiwch hefyd ein hysbysu o unrhyw ofynion mynediad wrth gysylltu!